

# Adroddiad blynyddol a datganiad ariannol 2016-17

---

GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GLEFYD SELIAG A  
DERMITIS HERPETIFORMIS

Cadeirydd: Dr Dai Lloyd AC  
Ysgrifennydd: Tristan Humphreys

26 Medi 2017

## **1. Aelodaeth grŵp a deiliaid swyddi**

### **Cadeirydd:**

Dr Dai Lloyd AC

### **Ysgrifennydd:**

Tristan Hudmphreys - Arweinydd yng Nghymru, Coeliac UK

### **Aelodau:**

Julie Morgan AC

Mark Isherwood AC

Mike Hedges AC

Nick Ramsay AC

Rhun Ap Iorwerth AC

Alison Jones	Dietegydd Cefnogi Rhagnodi Arweiniol Clinigol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Chris Jones	Grŵp Lleol Caerdydd a Dwyrain Cymru
Claire Constantinou	Dietegydd Arweiniol Gweithredol, Ysbyty Prifysgol Aberystwyth Cymru
Domonique Lardner	Grŵp Lleol Clwyd
Dr Geraint Preest	Meddyg Teulu a Golygydd Gofal Sylfaenol yn Arholiadau Cyfnodolyn Meddygol Prydain
Graham Phillips	Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Abertawe
Henry Wilkins	Grŵp Cymorth Gwirfoddol Lleol Caerfyrddin
Dr Huw Jenkins	Gastroenterolegydd Pediatrig Ymgynghorol, Ysbyty Athrofaol Cymru
Dr Jill Swift	Gastroenterolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Llandochoau, Caerdydd
Norma McGough	Cyfarwyddwr Ymchwil Polisi ac Ymgyrchoedd, Coeliac UK
Simon Scourfield	Arweinydd Rheoli Gweithrediadau, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Dr Vivek Goel

Gastroenterolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Spire  
Caerdydd

## **2. Cyfarfodydd Grŵp blaenorol ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol diwethaf.**

### **Cyfarfod 1.**

**Dyddiad y cyfarfod: 22/11/2016**

**Yn bresennol:** Cadeirydd - Dr Dai Lloyd AC (DL), Ysgrifennydd - Tristan Humphreys (TH), Norma McGough (NMG), Graham Philipps, Sian Evans, Claire Constantinou (CC), Alison Jones (AJ), Mark Isherwood AC.

### **Ymddiheuriadau**

#### **Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Cyflwyniad a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd** - Croesawodd DL bawb a oedd yn bresennol a chyflwynodd ei hun fel darpar Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol newydd ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis a soniodd mai ef oedd Cadeirydd cyntaf y Grŵp yn 2008 ond fe'i gorfodwyd i gamu i lawr yn 2011 pan gollodd ei sedd. Mae DL hefyd yn un o Lywodraethwyr Coeliac UK. Rhoddodd DL drosolwg byr o gylch gorchwyl y Cynulliad a gwahoddodd yr aelodau i gyflwyno eu hunain un ar y tro.
- **Diweddariad ar ymgyrchoedd Coeliac UK** - Rhoddodd NMG ddiweddariad ar ymgyrchoedd diweddaraf Coeliac UK, gan gynnwys trosolwg o lwyddiant yr ymgyrch diagnosis 'Is it Coeliac Disease?' hyd yma. Mae'r ymgyrch Gwarantu Di-glwten hefyd yn cael ei ail-lansio ym mis Ionawr 2017 ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod mwy o siopau cyfleustra yn ymrwmo i stocio'r prif fwydydd di-glwten. Ochr yn ochr â hyn, bydd Coeliac UK hefyd yn lansio ymgyrch Bwyta Allan yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth 2017.

- **Informatica-** Trafododd y grŵp rôl modiwl meddalwedd seliag Informatica ar gyfer meddygon teulu ledled Cymru. Trafodwyd yr effaith ar ofal eilaidd, gan gynnwys amrywiad daearyddol posibl cyfraddau diagnosis a'r her dechnolegol a achosir gan anallu i gyfathrebu rhwng systemau cyfrifiadurol gofal sylfaenol a'r rhai mewn gofal eilaidd. Bydd Coeliac UK yn cwrdd â Gwybodeg GIG Cymru i drafod ffyrdd o fonitro'r effaith honno.
- **Safon Ansawdd NICE** - Tynnodd NMG sylw at gyhoeddi safon ansawdd newydd NICE ar glefyd seliag a chafwyd trafodaeth ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu llwybr cleifion. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
- **Presgripsiynau-** Rhoddodd yr NMG ddiweddariad ar lawer o grwpiau Comisiynu Clinigol yn Lloegr yn cyfyngu ar bresgripsiynau di-glwten a'r gwaith a wneir gan Coeliac UK i geisio diogelu'r ddarpariaeth bresennol. Eglurodd AJ y byddai'n treialu cynllun cerdyn wedi'i dalu ymlaen llaw yn Hywel Dda fel dewis arall i'r system bresennol yng Nghymru.
- **Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)** - Rhoddodd TH ddiweddariad ar y datblygiad diweddaraf ynghylch y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol ac amlinellodd awydd Coeliac UK i weld anghenion meddygol wedi'u cynnwys ynddo.

-----

## **Cyfarfod 2.**

**Dyddiad y cyfarfod:** 31 Mawrth 2017

**Yn bresennol:** Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Tristan Humphreys (Ysgrifennydd), Alison Jones, Chris Jones, Claire Constantinou, Dr Geraint Preest, Dr Huw Jenkins, Dr Jill Swift, Mark Isherwood AC, Norma McGough, Rhun Ap Iorwerth AC, Sian Evans, Simon Scourfield

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Presgripsiynau-** Rhoddodd NMG ddiweddariad ar weithgarwch Coeliac UK mewn ymateb i ddileu'r ddarpariaeth o bresgripsiynau diglwtlen mewn Grwpiau Comisiynu Clinigol ledled Lloegr. Rhoddodd Alison Jones gyflwyniad ar ei chynllun peilot arfaethedig ar ragnodi ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Cafwyd trafodaeth ynghylch rhinweddau'r cynllun a chroesawodd y grŵp ei ddatblygiad tra'n galw am fesurau i gyfyngu ar gamddefnyddio. Bydd Alison yn diweddarau'r grŵp ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf.
- **Informatica-** Rhoddodd Coeliac UK adborth ar ei gyfarfod gyda gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ym mis Medi. Teimlwyd, er bod y cyflwyniad wedi bod yn llwyddiannus o safbwynt technegol, bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r adnodd i Feddygfeydd Meddygon Teulu. O ran mesur effaith, eglurodd Simon Scourfield y gellid casglu'r data yn ganolog bob dydd ar yr amod bod pwyllgor perthnasol gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cytuno. Cytunodd Simon Scourfield i weithio gyda Coeliac UK i sicrhau'r caniatâd angenrheidiol.
- **Llwybrau Cleifion-** Rhoddodd Claire Constantinou gyflwyniad ar y gwaith y mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi bod yn ei wneud yn datblygu llwybr cleifion arfaethedig. Rhoddodd Norma McGough adborth hefyd ar lwybr tebyg sydd wedi'i ddatblygu yn yr Alban. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr heriau sy'n wynebu defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chytunodd y grŵp i gefnogi Claire i ddatblygu ei gwaith ymhellach.
- **Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) -** Rhoddodd Tristan Humphreys y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am lansio canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sydd ag anghenion meddygol mewn ysgolion a gwaith Coeliac UK a phartneriaid yn cyfrannu atynt. Eglurodd fod yr elusen hefyd yn galw am gynnwys cyflyrau meddygol yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) sy'n mynd drwy Gynulliad Cymru ar hyn o bryd gan y teimlid y byddai hyn yn diogelu hawliau plant sydd â chlefyd seliag yn yr ysgol.
- **Wythnos Ymwybyddiaeth -** Nododd Tristan Humphreys y cynlluniau ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Seliag, gan gynnwys cael stondin yn ffreutur y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â bwydlen

gyda thema di-glwten. Awgrymwyd hefyd y gallai Dai Lloyd ofyn cwestiwn i'r gweinidog yn ystod yr wythnos.

- **Sioe Fwyd Di-glwten** - Bydd Coeliac UK yn cynnal ei Sioe Fwyd Di-glwten Cymru Gyfan gyntaf yng Nghaerdydd ar 28 Hydref. Bydd yn arddangos 20 o wahanol gwmnïau ac yn cynnwys demos coginio, blasu cwrw a sgysiau a thrafodaethau arbenigol. Y gobaith yw y bydd 1,000 yn mynychu a gofynnwyd i'r aelodau nodi'r dyddiad.

---

### **Cyfarfod 3**

**Dyddiad y cyfarfod:** 7 Mehefin 2017

**Yn bresennol:** Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd), Tristan Humphreys (Ysgrifennydd), Nick Ramsay AC, Dr Geraint Preest, Dr Jill Swift, Graham Phillips.

### **Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)** - Rhoddodd Tristan Humphreys ddiweddariad ar y datblygiadau diweddaraf gyda'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru). Croesawodd Coeliac UK y ffaith y cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a nododd ei fod wedi mabwysiadu'r argymhelliad canolog a wnaed gan yr elusen a'r Gynghrair Amodau Gofal Iechyd mewn Ysgolion. Cafwyd trafodaeth ynghylch amrywiaeth y gofal mewn ysgolion ar gyfer plant sydd â chlefyd seliag. Myfyriodd Dr Geraint Preest ar brofiad ei ferch a diffyg dealltwriaeth o'r cyflwr gan staff yr ysgol. Amlygodd Tristan Humphreys amrywiad a'r angen am gynhwysiant fel gyrwyr hanfodol ar gyfer ymgysylltiad yr elusen â'r Bil.
- **Gluten Freeevolution** - Cyflwynodd Tristan Humphreys ymgyrch bwyta allan newydd Coeliac UK sydd â'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth o fwydydd di-glwten, yn enwedig bwydydd 'ar fynd'. Mae Coeliac UK wedi cynhyrchu ystod o adnoddau gan gynnwys canllaw arlwyo a ffilmiau wedi'u hanimeiddio.ffa Lansiwyd yr

ymgyrch yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Seliag (9-14 Mai) yn ffreutur y Senedd gyda bwydlen â thema di-glwten a stondin gwybodaeth ar gyfer Aelodau Cynulliad a oedd am gael gwybod mwy. Hefyd, cyflwynodd Dr Dai Lloyd gwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a arweiniodd at ddatganiad cefnogol ar ragnodi cynnyrch di-glwten.

- **Informatica**- Cafwyd trafodaeth fer ar y camau nesaf ar gyfer y modiwl seliag Informatica gyda Dr Geraint Preest yn awgrymu bod Tristan Humphreys yn cysylltu â Byrddau Iechyd Lleol er mwyn hyrwyddo'r feddalwedd i feddygon teulu yn eu hamser diogelu dysgu. Cytunodd Tristan Humphreys i wneud hyn. Bydd panel DQS Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cwrdd ar ddiwedd y mis a bydd Coeliac UK yn cwrdd â Simon Scourfield cyn hyn.
- **Presgripsiynau** - Mae GIG Lloegr wedi lansio ymgynghoriad ar ddyfodol rhagnodi cynnyrch di-glwten. Un opsiwn yw dileu bwydydd di-glwten o'r rhestr o nwyddau a ragnodir gan atal rhagnodi cynnyrch di-glwten mewn gofal sylfaenol. Mae Coeliac UK wedi cyflwyno ymateb sy'n gwrthwynebu'r mesur hwn ac yn galw am alluogi meddygon teulu i arfer disgresiwn clinigol.
- **Sioe Fwyd Di-glwten** - Mae cofrestru ar gyfer Sioe Fwyd Di-glwten Cymru bellach yn fyw ac mae taflen hyrwyddo wedi'i llunio. Yn gyfan gwbl, mae 18 o gwmnïau wedi trefnu stondinau ac mae 6 lle arall ar gael o hyd.

### **3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cwrdd â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

#### **Coeliac UK**

3<sup>rd</sup> Floor,  
Apollo House,  
Desborough Road,  
High Wycombe.  
Buckinghamshire.  
HP11 2QW



## **Datganiad Ariannol Blynnyddol**

Mehefin 2017

Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis

**Cadeirydd:** Dr Dai Lloyd AC

**Ysgrifennydd:** Tristan Humphreys - Coeliac UK

<b>Treuliau'r Grŵp</b>	Dim	£0.00
<b>Costau'r holl nwyddau</b>	Ni phrynwyd unrhyw nwyddau	£0.00
<b>Buddion a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol</b>	Ni dderbyniwyd unrhyw fudd-daliadau	£0.00
<b>Unrhyw ysgrifenyddiaeth neu gefnogaeth arall</b>	Darparwyd ysgrifenyddiaeth gan Coeliac UK	£0.00
<b>Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch</b>		
Talodd Coeliac UK am yr holl luniaeth		
<b>Dyddiad</b>	<b>Disgrifiad ac enw'r darparwr</b>	<b>Cost</b>
22.11.16	Lluniaeth ar gyfer Cyfarfod y Grŵp Trawsbelidiol, Charlton House	£32.28
31.03.17	Lluniaeth ar gyfer Cyfarfod y Grŵp Trawsbelidiol, Charlton House	£21.42
07.06.17	Lluniaeth ar gyfer Cyfarfod y Grŵp Trawsbelidiol, Charlton House	£21.42 (Ni chodwyd tâl am hyn oherwydd problem gyda'r lluniaeth)
<b>Cyfanswm y gost</b>		<b>£53.70</b>